Dyddiad cyhoeddi: 02 Awst 2017

Nifer y Swyddi â Gofynion Ieithyddol

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 4 Gorffennaf 2017, lle gofynnwyd am wybodaeth ynghylch nifer y swydd-ddisgrifiadau â gofynion ar gyfer y Gymraeg.

Mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal Safonau'r Gymraeg, fel y'u nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd ar 25 Gorffennaf 2016, ac o 25 Ionawr 2017 cymhwyswyd y safonau perthnasol yn gysylltiedig â'r asesiad o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd neu swyddi gwag, a thrwy fanylu ar hynny wrth hysbysebu swyddi. Gan hynny, mae rolau a hysbysebwyd ers 25 Ionawr 2017 yn cynnwys lefel y sgiliau Cymraeg sydd yn berthnasol i'r rôl yn y swydd-ddisgrifiad.

Rydym ar ganol adolygu rolau er mwyn canfod ym mha rolau y mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, gyda golwg ar sicrhau bod gennym ddigon o allu yn y Gymraeg ar draws y sefydliad. Mae'n debygol y bydd yr adolygiad hwn yn arwain at rolau lle ceir yr un swydd-ddisgrifiad ar gyfer rolau a ddelir gan amryw o ddeiliaid rôl, ar wahân i'r elfen iaith, lle bydd sgiliau Cymraeg yn hanfodol mewn rhai achosion.

Rydym yn dal gwybodaeth yn gysylltiedig â swydd-ddisgrifiadau presennol, a dangosir yr wybodaeth honno isod. Gallai rhai rolau fod yn rhan-amser a bydd y swydd-ddisgrifiadau'n berthnasol p'un a yw rôl yn amser llawn neu'n rhan-amser. Sylwch hefyd fod yr wybodaeth yn gysylltiedig â swydd-ddisgrifiadau yn hytrach na nifer gwirioneddol y rolau a ddelir, hy efallai y ceir amryw o ddeiliaid swydd a chanddynt yr un swydd-ddisgrifiad.

1. Nifer y swyddi amser llawn (parhaol a chyfnod penodol) lle mae 'Cymraeg yn Hanfodol' yn y swydd-ddisgrifiad.
2. Nifer y swyddi rhan-amser (parhaol a chyfnod penodol) lle mae 'Cymraeg yn Hanfodol' wedi'i nodi yn y swydd-ddisgrifiad.
Ceir 3 o swydd-ddisgrifiadau cyfredol lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Ceir 3 rôl arall lle nodwyd bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, a bydd y swydd-ddisgrifiadau ar gyfer y rolau hyn yn cael eu diweddaru ymhen amser i adlewyrchu hynny.

3. Nifer y swyddi amser llawn (parhaol a chyfnod penodol) lle mae 'Cymraeg yn Ddymunol' wedi'i nodi yn y swydd-ddisgrifiad.
4. Nifer y swyddi rhan-amser (parhaol a chyfnod penodol) lle mae 'Cymraeg yn Ddymunol' wedi'i nodi yn y swydd-ddisgrifiad.
Ceir 21 o swydd-ddisgrifiadau cyfredol lle mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol.

5. Nifer y swyddi amser llawn (parhaol a chyfnod penodol) lle nad oes unrhyw ofynion wedi'u cynnwys yn y swydd-ddisgrifiad o ran sgiliau iaith.
6. Nifer y swyddi rhan-amser (parhaol a chyfnod penodol) lle nad oes unrhyw ofynion wedi'u cynnwys yn y swydd-ddisgrifiad o ran sgiliau iaith.
Ceir 40 o swydd-ddisgrifiadau lle nad oes unrhyw ofynion o ran sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd.

Ceir gwybodaeth am ymrwymiad Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru i'r Gymraeg ar ein gwefan yn http://www.audit.wales/cy/y-gymraeg

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau ynghylch fy ymdriniaeth â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,